



# Bwletin GwE



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i [ymuno â'n rhestr bostio](#).

# Diolch

STAFF ADDYSGU CYMRU SCHOOL STAFF



## Neges gan GwE ac Awdurdodau Lleol y Rhanbarth

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw yn iach ac yn saff yn ystod y cyfnod dyrys yma. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Fframwaith penderfyniadau ar gyfer y cyfnod nesaf o ofal plant ac addysg: ystyriaethau, cynllunio a heriau'. Er mwyn eich cefnogi yn eich paratoadau, byddwn ni (yr Awdurdod Lleol a GwE) yn cyfarfod â fforymau cynradd ac uwchradd pob awdurdod i drafod:

- Asesiad risg drafft;
- Fframwaith o gyngor a chanllawiau a fydd yn eich cefnogi i wneud penderfyniadau pan ddaw yn gliriach pwy fydd y grwp targed dysgwyr nesaf pan fydd rhagor o ddisgyblion yn cael eu derbyn; a
- Dangosfwrdd (llun isod) a fydd yn un lle canolog i chi gyfeirio ato yn y cam nesaf hollbwysig;



Oherwydd eu hamgylchiadau unigryw, bydd Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Ysgolion Arbennig yn cael trafodaeth unigol yn y lle cyntaf.

Er nad oes unrhyw benderfyniad o ran ail-agor ysgolion wedi ei wneud, rydym am weithio'n rhagweithiol gyda chi i sicrhau bod ysgolion y Rhanbarth mewn lle cadarn pan ddaw cyhoeddiad o'r fath.

## CYNNWYS

### GwE

- Cysylltu â GwE
- [Dolenni Defnyddiol](#)
- [Newyddlen y Gymraeg](#)
- [Cylchlythyr STEM Gogledd](#)

### Llywodraeth Cymru

- [£5m ar gyfer iechyd meddwl mewn ysgolion i gynnwys cymorth newydd ar gyfer plant o dan 11 oed ac athrawon](#)
- [Lansio Cynllun i gefnogi Addysg i ddysgwyr dros 16 oed](#)
- [Y Gweinidog Addysg yn datgan 'y ffordd o feddwl' am ddychswelyd i ysgolion](#)
- [Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu.](#)
- [Diweddariadau Covid 19 Llywodraeth Cymru](#)
- [Cylchlythyr Dysg](#)

### Arall

- [Clwb Cylch #ClwbCylch](#)
- [Covid-19: Rhianta 24/7](#)
- [Arolwg Lles yr Academi Arweinyddiaeth](#)
- [Cameos a syniadau o ysgolion ac UC Dau ar barhau â busnes ysgol](#)
- [Arolwg #CoronafeirwsAFI](#)
- [Primary Science Teaching Trust](#)
- [Blog Pobl Ifainc](#)
- [Taith Ddigidol Amser Gartref BookTrust Cymru](#)
- [Ymgyrch NSPCC](#)
- [Prosiect Darllen Ar-lein Gogledd Cymru - Cadw Disgyblion i Ddarllen!](#)



Mi fydd llawer ohonoch wedi dechrau hel meddyliau am y camau nesaf. Edrychwn ymlaen at gynnal y trafodaethau hyn i gael eich barn ar sut y gallwn rannu syniadau yn y cyfnod hollbwysig ac allweddol hwn.

### Hanner Tymor

Er bod ysgolion yn dal i ddarparu gofal i blant gweithwyr allweddol yr wythnos hon, cadarnheir yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru, NAD oes unrhyw ddisgwyliad ar ysgolion i gynnig unrhyw gynnwys dysgu yn ystod hanner tymor mis Mai. Mae hwn yn wyliau statudol, a bydd staff, rhieni a disgyblion yn elwa yn feddyliol, ac yn gorfforol, o gael cyfle cwbl haeddiannol i ymlacio.

[Cliciwch yma am gopi o'r llythyr](#)

Cadw'n Ddiogel. Stay Safe.  
Dal ati i Ddysgu. Stay Learning.

## Y Gweinidog Addysg yn datgan 'y ffordd o feddwl' am ddychwelyd i ysgolion

Mae Llywodraeth Cymru wedi [cyhoeddi dogfen](#) sy'n datgan sut y mae'n ystyried y cam nesaf i ysgolion, fel ymateb i COVID-19.

## Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu.

### CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL:

- [Rhaglen Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu](#)
- [Cyngor ar gyfer lleoliadau, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion \(UCD\) i'w cefnogi yn eu gwaith gyda dysgwyr - Datblygu dulliau i gefnogi dysgu o bell](#)
- [Cyngor i rieni/gofalwyr](#)
- [Offer dysgu o bell drwy Hwb](#)
- [Cyngor newydd i gynorthwyo arweinyddion ysgolion ac UCDAu i barhau â busnes ysgol](#)
- [Cefnogi eich plant i ddefnyddio'r Gymraeg gartref](#)

Yn ogystal â'r arweiniad, mae adnoddau ar gael i helpu gyda pharatoi gweithgareddau dysgu. Rhennir y rhain â chi drwy eich Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant.

## Gwybodaeth a Chanllawiau GwE

### Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr. Cysylltwch â ni ar [post@GwEGogledd.Cymru](mailto:post@GwEGogledd.Cymru) ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



### Dolenni Defnyddiol

#### Google Classroom i Gymorthyddion Dysgu

- [Cyfarwyddiadau ar sut i gael mynediad i'r dudalen drwy ddefnyddio eich cyfrif Hwb](#)
- [Cyfarwyddiadau dwyieithog ar sut i ddefnyddio Google Classroom](#)
- [Linc i droslais yn egluro beth sydd yn y Google Classroom](#)

#### Adnoddau GwE ar Google Classroom

- [Arweiniad ar Google Classroom a Microsoft Teams](#)
- [Gwybodaeth bellach](#)

#### Diweddariadau Covid-19 GwE

- [Holl ddiweddariadau gwybodaeth GwE a anfonwyd i ysgolion](#)



## Newyddlen y Gymraeg

Dilynwch y [ddolen hon](#) er mwyn gweld Newyddlen y Gymraeg sy'n amlinellu sut y mae'r consortia yn gweithio gyda'i gilydd o ran adnoddau Cymraeg ar gyfer dysgu o bell.

## Cylchlythyr STEM Gogledd

Mae'r prosiect STEM Gogledd dal yn weithredol yn ystod y sefyllfa bresennol yn sgil Covid-19. Mae'r sylw wedi newid bellach i fod yn cefnogi disgyblion gartref trwy ddulliau ar-lein. [Cliciwch yma](#) am gopi o'r newyddlen.

# Gwybodaeth a Chanllawiau Llywodraeth Cymru

## £5m ar gyfer iechyd meddwl mewn ysgolion i gynnwys cymorth newydd ar gyfer plant o dan 11 oed ac athrawon

Mae'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething, wedi cyhoeddi £3.75 miliwn o gyllid ar gyfer iechyd meddwl mewn ysgolion a fydd yn cynnwys cymorth newydd i blant o dan 11 oed. Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau cwnsela ysgolion yn darparu cymorth uniongyrchol i bobl ifanc o 11 oed, neu Flwyddyn 6, i 18 oed. Bydd y cyllid a gyhoeddwyd heddiw yn ehangu'r cymorth i ddarparu cefnogaeth feddyliol ac emosiynol i blant iau na Blwyddyn 6. [Cliciwch yma](#) i ddarllen [mwy](#).

## Lansio Cynllun i gefnogi Addysg i ddysgwyr dros 16 oed

Mae Kirsty Williams wedi [cyhoeddi](#) bod cynllun cadernid Llywodraeth Cymru wedi'i [lansio](#) ar gyfer y sector addysg ôl-16, sydd yn nodi sut bydd y Llywodraeth yn cydweithio â cholegau, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant er mwyn helpu sicrhau bod dysgwyr yn cael cefnogaeth drwy gydol

## Diweddariadau Covid 19 Llywodraeth Cymru

Mae dolenni defnyddiol eraill Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r coronafirws i'w gweld isod:

- [Gwefan](#) Coronafirws Llywodraeth Cymru
- Coronafeirws (COVID-19): [canllawiau lleoliadau addysgol](#)
- Coronafeirws: [canllawiau teithio i sefydliadau addysg a myfyrwyr](#)
- Cyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru <https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/>
- Dilynwch ar Twitter [@LIC\\_Addysg](#) neu [www.facebook.com/addysgcymru](http://www.facebook.com/addysgcymru)

## Cylchlythyr Dysg

Sicrhewch eich bod yn derbyn diweddariadau a datblygiadau wythnosol Llywodraeth Cymru ar y sectorau addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Cofrestrwch i dderbyn Dysg [yma](#)



# Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

## Clwb Cylch [#ClwbCylch]

Yn ystod cyfnod pandemig y Coronafeirws, mae Mudiad Meithrin yn cyfrannu at weithgarwch Cymraeg yn y cartref trwy ddarparu sesiynau agored dan faner 'Clwb Cylch' (#ClwbCylch) i blant oedran Cylch a'u rhieni trwy lwyfannau digidol. Bydd pwyslais penodol ar blant o deuluoedd ble na siaredir y Gymraeg yn y cartref.

Cynhelir sesiwn am 10 o'r gloch bob bore Llun i Gwener o 1 Mehefin ymlaen. Bydd y sesiwn yn seiliedig ar sesiwn hwyliog yn y Cylch Meithrin arferol gydag arweinydd Cylch Meithrin profiadol, gan ddefnyddio cynllun trochi iaith Mudiad Meithrin, Croesi'r Bont a chynllun hyfforddiant Mudiad Meithrin, Academi. Hyd y sesiynau dyddiol fydd 20 munud, a bydd thema wahanol bob wythnos.

## Covid-19: Rhianta 24/7

Yn ddiweddar, mae ymchwilyr o Brifysgol Bangor wedi bod yn gweithio gyda Sefydliad Iechyd y Byd ac UNICEF i lunio cyfres o ganllawiau ar sail tystiolaeth i rieni, i'w helpu drwy'r cyfnod hwn o gau ysgolion. Dilynwch y [ddolen hon](#).

## Arolwg Lles yr Academi Arweinyddiaeth

Mae'r Academi Arweinyddiaeth yn gweithio i ddatblygu strategaeth Lles ar gyfer Arweinwyr yng Nghymru. Rydym am i'n strategaeth ganolbwyntio ar eich profiad chi, felly byddem yn gwerthfawrogi eich cyfraniad i'n [harolwg lles arweinwyr ysgolion](#).

## Cameos a syniadau o ysgolion ac UC Dau ar barhau â busnes ysgol

Mae Estyn a phartneriaid eraill wedi casglu cameos i ddangos sut y mae rhai ysgolion ac UC Dau wedi ymateb i gadw busnes eu hysgol i fynd ar hyn o bryd.

Darllenwch y cameos

<https://www.estyn.llyw.cymru/dogfen/cameos-syniadau-o-ysgolion-ac-ucdau-ar-barhau-a-busnes-ysgol>

## Arolwg #CoronafeirwsAFi

Mae pobl sydd am wneud gwahaniaeth yn eich bywyd eisiau clywed gennych chi am sut y bu bywyd i chi dros yr wythnosau diwethaf.

Mae'r Comisiynydd Plant, y Senedd Ieuentid, a Phlant yng Nghymru wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gwrando ac yn clywed beth sydd gennych chi i'w ddweud. Mae'r bobl hyn am sicrhau eu bod nhw'n gwneud eu gorau i holl blant a phobl ifanc Cymru. Maen nhw am sicrhau eu bod nhw'n rhoi'r wybodaeth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnoch chi i deimlo mor hapus ag y bo modd yn ystod y cyfnod hwn, a'r tu hwnt.

Dylai'r arolwg gymryd tua 15 munud.

**Mae'n cau ar 27 Mai.**

Rhannwch eich barn gan ddilyn y ddolen hon: [www.complantcymru.org.uk/coronafeirwsafi](http://www.complantcymru.org.uk/coronafeirwsafi)



## Primary Science Teaching Trust

Hoffai'r Primary Science Teaching Trust eich cefnogi yn ystod y cyfnod anodd hwn.  
[Cliciwch yma](#) i weld pa gefnogaeth sydd ar gael.



## Prosiect Darllen Ar-lein Gogledd Cymru - Cadw Disgyblion i Ddarllen!

### HEADSPROUT

Bellach, mae trwyddedau 90 diwrnod RHAD AC AM DDIM gan Headsprout, sy'n rhoi mynediad i hyfforddiant darllen a phhecyn hyfforddiant cynhwysfawr ar-lein gan Brifysgol Bangor, sydd hefyd AM DDIM.

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).


Os hoffech chi ymuno â'r prosiect, neu ofyn unrhyw gwestiwn, anfonwch e-bost at [sarah.e.roberts@bangor.ac.uk](mailto:sarah.e.roberts@bangor.ac.uk)

## Blog Pobl Ifanc

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ailgynllunio gwefan Llyfrgelloedd Cymru / Welsh Libraries ac yn cyflwyno rhai nodweddion newydd a fydd, gobeithio, yn cefnogi ac yn hybu gweithgareddau darllen yng Nghymru. Un o'r nodweddion fydd Blog Pobl Ifanc a allai fod yn llwyfan i bobl ifanc yng Nghymru ar gyfer ysgrifennu am unrhyw bwnc perthnasol i'w profiadau darllen. Dyma rai syniadau a allai fod yn y Blog:

- Adolygiad neu gipolwg ar lyfr rydych yn ei ddarllen neu wedi'i ddarllen.
- Cymhariaeth o lyfrau rydych wedi'u darllen.
- Cyflwyniad i nifer o lyfrau ar bwnc arbennig sydd o ddiddordeb ichi.
- Eich profiadau o wasanaeth eGomics RBdigital.
- Eich profiadau o ddefnyddio e-lyfrau llafar neu e-lyfrau Borrowbox neu RBdigital yn ystod y cyfyngiadau.
- Darn yn trafod 'Beth sy'n arbennig am fy llyfrgell leol.'

Dylai'r Blog fod yn 300-600 o eiriau. Byddwn yn dewis sawl blog bob blwyddyn i'w gyhoeddi ar wefan Llyfrgelloedd Cymru. Bydd y rhain yn ennill tocynnau llyfr gwerth £20. Gellir ysgrifennu'r Blog yn Gymraeg neu yn Saesneg. Dychwelwch y Blogiau gorffenedig i [jhe@llgc.org.uk](mailto:jhe@llgc.org.uk)



## Taith Ddigidol Amser Gartref BookTrust Cymru

Mae teithiau digidol Amser Gartref BookTrust Cymru a sesiynau cymorth ar-lein wedi bod yn boblogaidd iawn. Gall athrawon ac ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant yng Nghymru fynychu un o'r sesiynau hyn drwy glicio ar y linc Eventbrite isod.

### [COFRESTRWCH YMA](#)



Bydd hwn yn sesiwn rhyngweithiol a chroesawir adborth ar AmserGartref BookTrust Cymru a'r adnoddau a chymorth digidol sydd ar gael.

Gwiriwch ein [tudalen Eventbrite](#) er mwyn dod o hyd i wybodaeth am ragor o sesiynau hyfforddiant ac ymgysylltu a gynigir gan BookTrust Cymru.

## Ymgyrch NSPCC

Mae'r NSPCC yn cynnal ymgyrch sy'n rhybuddio oedolion i roi gwybod iddynt am bryderon sydd ganddynt am blant.

**PECYN YMGRYCH YR NSPCC A'R ADRAN ADDYSG AR GYFER Y LLINELL GYMORTH**



[post@gwegogledd.cymru](mailto:post@gwegogledd.cymru)

